
Enw ______________________



DARLLENWCH
Actau 16: 6-15




ADNOD ALLWEDDOL
Actau 2: 21

*Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.*

## Stori 3 Paul yn cwrdd â Lydia

Ydych chi wedi bod ar eich gwyliau mewn gwlad ddieithr? Ydych chi wedi croesi'r ffin rhwng dwy wlad? Teithiodd Paul a dau ffrind iddo, Silas a Timotheus, yn bell iawn gan fynd o wlad i wlad. Gan eu bod nhw'n gwneud gwaith Duw, roedd yr Ysbryd Glân yn dangos iddyn nhw lle i fynd. Bobman yr oedden nhw'n mynd, roedd angen sôn wrth lawer o bobl am Iesu Grist.



**C Pwy oedd dau ffrind Paul?**

**S __ __ __ __ a T __ __ __ __ __ __ __ __**

2

Un diwrnod, daethon nhw i dref ar lan y môr. Cafodd Paul fath o freuddwyd arbennig. Roedd dyn o Macedonia (Gwlad Groeg) yn gofyn i Paul fynd draw i helpu'r bobl yno. Roedd Paul yn gwybod mai ffordd Duw o ddweud wrtho lle i fynd nesaf oedd hyn.

**C Llanwch y bylchau i gael gweld beth ddywedodd y dyn o Facedonia wrth Paul.**

**T __ __ __ draw i'n**
**h __ __ __ __ ni!**

4

Daethon nhw o hyd i long oedd yn mynd i Facedonia a chyrraedd dinas o'r enw Philipi.

Ar y Saboth, aeth Paul a'i ffrindiau allan o'r ddinas i lan afon. Roedd rhyw fenywod wedi dod yno i weddïo.



Lydia oedd enw un ohonyn nhw. Roedd yn credu yn Nuw ers amser hir ond doedd hi ddim wedi clywed bod Mab Duw, Iesu Grist, wedi dod o'r Nefoedd ac wedi marw ar y groes fel y gallai hi gael ei hachub oddi wrth ei phechodau.

**C** **Llanwch y geiriau ar y Grid Geiriau.**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | | | L | | | |
| | | | 2 | | Y | | | |
| | | | | 3 | D | | | |
| 4 | | | | | I | | | |
| | | | | 5 | A | | | |

1.Daeth Paul i ddinas fawr ___ ___ ___ ___ ___ ___ ___.

2. Ar y ___ ___ ___ Saboth, aethon nhw allan o'r ddinas.


3. Roedd Lydia'n addoli ___ ___ ___ .

4. Roedd Lydia'n dod o'r ddinas hon.

5. Gwnaeth yr Arglwydd hyn i galon Lydia.

10

Gwrandawodd Lydia'n ofalus ar bopeth a ddywedodd Paul. Er mai dyma'r tro cyntaf iddi glywed y neges, roedd Lydia'n gwybod yn ei chalon ei bod yn wir. Y diwrnod hwnnw, daeth i gredu yn Iesu Grist. Roedd hi mor falch bod Paul wedi dod i'w dinas hi.



Daeth teulu Lydia'n Gristnogion hefyd.
Ar ôl i Lydia a'i theulu gael eu bedyddio, gwahoddodd hi Paul a'i ffrindiau i fynd i aros yn ei thŷ hi.

4

**C** **Rhowch ✓ neu ✗ ar ôl y brawddegau hyn.**

Daeth teulu Lydia'n Gristnogion hefyd. ............
Gwahoddodd Lydia Paul a'i ffrindiau i aros yn ei chartref. ............

Pan aeth Paul i Wlad Groeg, daeth â'r newyddion da i Ewrop am y tro cyntaf!

Mae'r stori yma'n ein hatgoffa bod modd achub pob math o bobl. Does dim ots lle maent yn byw na phwy ydyn nhw! Mae hynny'n golygu y gallwch chi fod yn Gristion hefyd!